Ar Streic

Bore da.

Mae hi'n gynnar eto ac effaith y streic heb ddechrau brathu. Y trafod wedi dod i ben. Y bygythiad yn troi'n weithredu. Yr Undebau wedi dilyn eu canllawiau. Y Llywodraeth wedi dilyn eu penderfyniad. Y tro yma does dim tro pedol. Fe gynhelir trafodaethau pellach yn y gobaith o osgoi sefyllfa lawer gwaeth yn yr hydref. Ond ar hyn o bryd mae gagendor rhwng y ddwy ochor.

Ar ôl y trafod ddydd Llun roedd dehongliad y ddwy ochor yn dangos y bwlch. Y Llywodraeth yn honni bod y trafodaethau wedi bod yn 'adeiladol.' 'Ffars' oedd gair yr Undebau.

Y cwestiwn cynta mae pawb yn ei ofyn yw 'Be' sy' 'ma i *mi*'? Yn lle bod pobol yn holi sut y gall polisïau'r wladwriaeth hybu uchelgais a dyhead uwch na'r hunanoldeb cynhenid sydd ynom ni mae arweinwyr barn y bobol fel pe baen nhw'n awgrymu mai budd bydol yw'r rhicyn uchaf y gall Dyn anelu ato.

Dwi'n aelod o Undeb hefyd – Undeb yr Annibynwyr. Fel y digwydd hi mae Cyfarfodydd Blynyddol yr Undeb yn dechrau heddiw ym Miwmares. Tridiau o gynadledda ac o gyfarfodydd amrywiol ar Ynys Môn. Dim sôn am streic. Fase neb yn poeni pe baen ni'n streicio.

Gobeithio ydw i na fydd yr Undeb hwn yn bychanu Cristnogaeth i fod yn ddim mwy na 'feel-good factor'; i guro cefnau ein gilydd ac i restru'r pethau da yr yden ni wedi eu gwneud. Peidiwch â 'nghamddeall i, *mae* 'na bethau da yn digwydd – yn rhaglen ddatblygu, yn daith y Cyfundebau, yn ysgogiad i arweinyddiaeth – ond hanfod ein gweithredu ni yw ufuddhau i orchmyn uwch na Llywodraeth a Senedd.

Does dim bwriad i ddileu pryderon a gofidiau a thristwch.'Dyw bywyd ddim yn beth neis-neis. Edrych mewn drych y byddwn ni a hwnnw'n ddrych o amherffeithrwydd. Sut ddrych yw'r un y byddwch chi'n edrych arno bore 'ma?

Bore da.

R. Alun Evans